

Strwythur ar gyfer Fframweithiau Prentisiaeth Cymru

Ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad

Eich enw: Rebecca Williams

Sefydliad (lle bo'n berthnasol): UCAC

e-bost/rhif ffôn:

rebecca@ucac.cymru / 01970 639950

Eich cyfeiriad:

UCAC, Ffordd Penglais, Aberystwyth SY23 2EU

Dylid dychwelyd ymatebion erbyn 9 Rhagfyr i:

Yr Uned Brentisiaethau Cyfeiriad
Yr Is-Adran Addysg Bellach a Phrentisiathau
Llywodraeth Cymru
Tŷ Afon
Ffordd Bedwas
Bedwas
Caerffili
CF83 8WT

neu gellir cwblhau'r ffurflen yn electronig a'i hanfon i'r cyfeiriad isod:

e-bost: DfES-ApprenticeshipUnit@gov.wales.

Cwestion 1 - A ydych yn cytuno â'r egwyddor bod sectorau a llwybrau prentisiaeth yn cael eu cysylltu i alwedigaethau?

Cytuno	☐	Dim Cytuno	☐	Ddim yn cytuno nac yn anghytuno	☒
---------------	--------------------------	-------------------	--------------------------	--	-------------------------------------

Sylwadau ategol

--

Cwestion 2 - Beth fydd yr effaith bosib o wneud i ffwrdd â rhai fframweithiau cyffredinol (e.e. rheoli a gweinyddu busnes)?

--

Cwestion 3 - A oes unrhyw sectorau galwedigaethol cyffredinol y byddech yn disgwyl eu gweld, ond sydd heb eu cynnwys?

--

Cwestion 4 - A ddylid ail-enwi, ail-gyplysu, uno neu rannu unrhyw un o'r sectorau galwedigaethol sydd mewn golwg?

--

Cwestion 5 - Ydy'r llwybrau galwedigaethol yn briodol ac wedi eu cyplysu'n gywir yn y sectorau?

--

Cwestiwn 6 – Hoffem wybod eich barn ar yr effeithiau y byddai'r newid strwythur y fframweithiau prentisiaeth yng Nghymru'n ei gael ar yr iaith Gymraeg, yn benodol ar:

- i) gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- ii) peidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Beth fyddai'r effeithiau yn eich barn chi? Sut mae cynyddu effeithiau cadarnhaol neu liniaru effeithiau negyddol?

Sylwadau ategol

Nodwn fod y Rhagair i'r ymgynghoriad yn cyfeirio at 'ddarparu prentisiaethau drwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'n ddwyieithog' fel un o flaenoriaethau Llywodraeth Cymru. Mae hynny i'w groesawu'n fawr, ac mae dirfawr ei angen.

Dangosa'r ystadegau mai dim ond 5% o'r prentisiaethau rhwng 2011/12 a 2015/16 oedd ag unrhyw elfen o ddysgu ac asesu yn y Gymraeg.

Mae darparu prentisiaethau yn y Gymraeg yn rhan *ganolog* o'r ymdrech i sicrhau bod prentisiaethau'n cwrdd ag anghenion economi Cymru. Mae prinder difrifol o weithwyr â'r gallu i weithredu yn y Gymraeg yn sectorau 18-23 a restrir yn Atodiad 1 i'r ymgynghoriad. Mae llawer o'r rhain yn wasanaethau ble mae'r Gymraeg yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol - wrth ymdrin â phlant ifanc iawn, pobl oedrannus, pobl fregus, sâl neu mewn sefyllfa o argyfwng. Yn ogystal mae effaith 'lluosi' neu 'luosogi' i nifer o'r sectorau hyn, er enghraifft, o sicrhau prentisiaethau yn y sectorau gofal plant ac addysg, nid yn unig mae creu gwell cyflenwad o weithwyr addas ar gyfer y gweithluoedd perthnasol, ond mae presenoldeb y gweithwyr hynny o fewn y gweithlu yn cynorthwyo i greu siaradwyr Cymraeg newydd, ac yn helpu i ymgynghoriad at y targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae llawer o'r sectorau eraill yn rhai ag elfen o ofal cwsmer neu wasanaeth sy'n ymwneud â'r cyhoedd, a chyfran sylweddol o'r swyddi yn rhai mewn ardaloedd ble mae cwsmeriaid yn awyddus i gael gwasanaeth Cymraeg. Gall darparu gwasanaeth ddwyieithog fod yn hwb sylweddol i fusnes ac felly i'r economi lleol.

Felly mae angen i brentisiaethau Cymraeg a dwyieithog fod yn ganolog i'r cynlluniau, ac mae angen sicrhau bod yr elfen Gymraeg yn gadarn, gwerthfawr ac yn bwrpasol.

Pryderwn nad oes unrhyw gyfeiriad pellach y tu hwnt i'r Rhagair at y Gymraeg a'i bwysigrwydd o fewn y Fframweithiau Prentisiaeth Cymru, a phwyswn am sicrhau cyfeiriadau a sylw priodol drwyddi draw.

Cwestiwn 7 – Eglurwch hefyd sut gellid ffurfio neu newid y polisi arfaethedig:

- i) fel bod effeithiau cadarnhaol neu fwy o effeithiau cadarnhaol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg
- ii) fel nad oes effeithiau andwyol ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Sylwadau ategol

Yn sgil y sylwadau mewn ymateb i Gwestiwn 6 uchod, os na fydd cynnydd sylweddol iawn yn nifer y prentisiaethau yn y Gymraeg, ar draws y sectorau a restrir, mi fydd yn cael effaith negyddol iawn ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg, ac mi fydd y gyfundrefn yn sicr yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

O ran cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg, mi fydd prinder cyfleoedd i wneud prentisiaethau yn y Gymraeg yn gorfodi pobl ifanc (yn bennaf) ac eraill i ddilyn llwybrau Saesneg, ac yn eu hamddifadu o'r cyfle i siarad Cymraeg mewn cyd-destun proffesiynol ac i ddatblygu eu sgiliau yn y meysydd hynny. Yn ei dro, bydd hynny'n golygu y bydd llai o wasanaethau ar gael yn y Gymraeg (sector cyhoeddus a sector preifat/busnes) a fydd yn cyfyngu eto ar ryddid pobl i fyw eu bywydau yn y Gymraeg a'u gallu i siarad yr iaith o ddydd i ddydd. Yn ogystal bydd prinder gweithwyr mewn gweithluoedd penodol megis gofal plant/blynyddoedd cynnar ac addysg, yn golygu y bydd yn anos creu siaradwyr Cymraeg newydd o fewn y cyfundrefnau hynny.

Cwestiwn 8 – Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych chi faterion perthnasol nad ydym wedi rhoi sylw penodol iddynt, defnyddiwch y blwch isod i roi gwybod i ni amdanynt.

Mae ymatebion i ymgynghoriadau yn debygol o gael eu gwneud yn gyhoeddus, ar y rhyngwrdd neu mewn adroddiad. Os byddai'n well gennych i'ch ymateb aros yn ddienw, ticiwch yma:

☐